Mynd yn organig - Cwestiynau Cyffredin

Beth yw'r prif egwyddorion wrth gefn dulliau organig?

Dull o gynhyrchu sydd am gynnal iechyd priddoedd, systemau eco a phobl yw amaeth organig. Mae'n dibynnu ar brosesau ecolegol, bioamrywiaeth a chylchoedd sydd wedi eu addasu i amgylchiadau lleol, yn hytrach na'r defnydd o bethau estron a all gael effeithiau negyddol. Cyfuna amaeth organig traddodiad, arloesedd a gwyddoniaeth er lles y cyfran amgylchedd, a hybu perthynas teg a safon dda o fywyd i'r cyfranogwyr. (IFOAM 2008)

Cwestiynau ynglŷn â throsi'r tir

C1 Beth yw fy opsiynau trosi?

Mae dau lwybr i'w hystyried at gyrraedd statws organig.

Trosiad cydamserol - Pe baech yn dewis yr opsiwn hwn, dyma fyddai'r llwybr cyflymaf at gael cynnyrch organig i'w werthu, gan fod y tir a'r mentrau y mae'n eu cynnal yn cyrraedd statws organig ddwy flynedd o ddyddiad cychwyn y trosiad. Fodd bynnag, gall yr opsiwn hwn fod yn ddrutach gan fod rhaid rheoli'r tir a'r da byw fel ei gilydd yn unol â'r safonau organig o ddiwrnod cyntaf y trosiad. Golyga hyn fod rhaid i driniaethau milfeddyg a meddygol, yn ogystal â phorthiant da byw, gydymffurfio â'r drefn. Rhaid i ddiet anifeiliaid cnoi cil fod yn 100% organig ac unrhyw ddwysfwyd a ddefnyddir fod yn gyfan gwbl organig. O ystyried fod dwysfwyd organig yn costio tua £350 y dunnell, mae angen costio hwn yn y cynllun trosi.

Trosiad traddodiadol - Dan yr opsiwn hwn, ar y cychwyn, y tir yn unig a reolir yn unol â'r Safonau. Golyga hyn ar ôl cychwyn y trosiad, na ellir defnyddio sylweddau gwaharddedig ar y tir megis gwrtaith artiffisial, plaladdwyr, chwynladdwyr, neu gludo tail o fferm ddofednod ddwys nac ymgymryd â menter anifeiliaid 'dim pori'. Rhaid i'r holl gnydau a dyfir gael eu plannu gan ddefnyddio cymysgedd hadau sy'n cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid i gymysgedd hadau gwair gynnwys o leiaf 65% o had organig, a rhaid i ffermwyr sy'n tyfu grawnfwydydd ddefnyddio had sy'n 100% organig. Ni ddaw'r da byw yn rhan o'r trosiad tan fydd y tir wedi ennill statws organig, ar ôl dwy flynedd.

C2 Sut mae cynnal ffrwythlonder y pridd?

Cynnal lefelau organig, annog bywyd biolegol y pridd a defnyddio triniaethau peiriannol yn ofalus er mwyn hyrwyddo, cynnal a gwella ffrwythlonder hirdymor yw hanfod rheolaeth ffrwythlonder y pridd. Bwriad y drefn organig yw i fod yn hunan gynhaliol; cyfrennir ffrwythlonder gan garthion anifeiliaid, nitrogen codlysiau ac achles gwyrdd. Rhyddheir maeth i'r planhigion trwy waith micro organau'r pridd, a phwysleisia hyn, pwysigrwydd pridd sydd yn fiolegol byw ac iach. Pan bod modd profi problem ffrwythlonder, caniateir y Safonau Organig defnydd gwrteithiau penodol, megis calch a craig chwâl P a K sydd yn araf rhyddhau i'r pridd. Yn arferol, os ydi profion pridd yn dangos pH yn is na 5.8 a mesur o P&K sydd yn llai na 1, ceir hawl i gyweirio'r diffyg ond gwell trafod yn gyntaf yr hyn a fwriedir ei wneud gyda'r Corff Ardystio a gofyn am darn-ddirymiad os oes angen.

Cwestiynau ynglŷn â throsi da byw

C3 Pryd fydd gen i anifeiliaid organig i'w gwerthu?

Os dewiswch drosi trwy ddefnyddio'r dull 'SimCon', yna pan fydd cyfnod trosi'r tir wedi'i gwblhau'n llwyddiannus:

- Gellir gwerthu lloi a anwyd tri mis ar ôl cychwyn y trosiad fel rhai organig ar unwaith, e.e. dyddiad trosiad 1af Mawrth 2008: gellir gwerthu lloi a anwyd 1af Gorffennaf 2008 ymlaen fel rhai organig ar ôl 1af Mawrth 2010.
- Gellir gwerthu mamogiaid sydd wedi cymharu yn ystod hydref yr ail flwyddyn trosiad fel rhai organig ar unwaith: e.e. dyddiad trosiad 1af Mawrth 2008; gellir gwerthu ŵyn a anwyd yn ystod 2010 fel rhai organig ar ôl 1af Mawrth 2010.

Dan opsiwn y Trosiad Traddodiadol, pan fydd cyfnod trosi'r tir wedi'i gwblhau'n llwyddiannus:

- Gellir gwerthu lloi a anwyd 3 mis ar ôl i'r tir ddod yn organig fel rhai organig.
- Mae ŵyn organig yn gynnyrch mamogiaid sydd wedi cymharu ar ddaear organig. Fel arfer, bydd 3 blynedd wedi mynd heibio ers cychwyn y trosiad cyn bydd ŵyn organig ar gael i'w gwerthu.

C4 Sut ydw i'n trosi fy menter da byw?
Rhaid i bob ffermwr da byw sy'n bwriadu trosi ddangos Cynllun Iechyd Anifeiliaid, (AHP), tebyg i'r un sy'n ofynnol gan Gynlluniau Gwarant Fferm. Gall eich milfeddyg eich helpu i'w baratoi. Mae llawer o ffermwyr o'r farn eu bod yn ddefnyddiol gan eu bod yn tynnu sylw at glefydau cyson ac achlysurol ac yn helpu i ganolbwyntio ar ffyrdd o leihau neu gael gwared â rhai ohonynt.

C5 Sut ydw i'n delio gyda pharasitiaid mewnol mewn defaid?
Er y caniateir rhywfaint o driniaethau gyda anthelmintigau (drenswyr), rhaid i'r AHP nodi sut y bwriedir lleihau'r angen am hyn, er enghraifft, trwy bori cymysg, lleihau cyfraddau stocio, pori cylchdro, difa troseddwyr cyson, a dewis defaid gwydn.

C6 Sut ydw i'n delio â pharasitiaid allanol mewn defaid?
Caniateir y rhan fwyaf o driniaethau, ac eithrio'r OPs. Mae'r Safonau Organig yn caniatáu defnyddio'r rhain mewn amgylchiadau eithafol ond ni ellir gwerthu defaid a ymdrochwyd mewn OP fel rhai organig ac efallai bydd rhaid i famogiaid magu fynd drwy gyfnod trosi newydd. Unwaith eto, mae ffermio effeithiol yn cynnwys elfen fawr o atal afiechydon, ble bynnag y bo hynny'n bosib. Mae amrywiaeth barn ymhlith y Cyrff Ardystio ynglŷn â defnydd OPs; caniateir defnydd chwistrellion a dylifwyr gan y Soil Association. Dywed OF&G; Cyn defnyddio triniaethau OP, rhaid gofyn am rhan ddirymiad oddi wrth y Swyddfa Ardystio, a safiad QWFC Ltd yw na cheir defnyddio OPs ar ddefaid.

C7 A allaf i barhau i ddefnyddio brechiadau?
Os oes problem ddiffiniedig, e.e. aren bwdr, a bod y milfeddyg yn gallu cadarnhau hyn, gellir defnyddio brechiad, ond rhaid nodi pob triniaeth yn yr AHP. Gwell defnyddio brechiad 6 mewn 1 na brechiad 10 mewn 1.

C8 A oes problemau'n gysylltiedig â chlwy'r traed y dylaswn fod yn ymwybodol ohonynt?
Fel gyda ffermio confensiynol, mae ffyrdd syml ac effeithiol o leihau clwy'r traed mewn diadell cyn gorfod troi at wrthfiotigau. Dylid cynnwys y strategaethau hyn yn y cynllun iechyd anifeiliaid. Fe ganiateir gwrthfiotigau ond rhaid cofnodi rhif adnabod yr anifail, yn ogystal â'r cyfnod cilio sy'n briodol i ffermio organig.

C9 Beth yw'r rheol 'tri chynnig ac allan'?
Bydd tair triniaeth wahanol mewn cyfnod o 12 mis yn golygu y bydd anifail yn colli ei statws organig, e.e.
Gyda defaid: gwrthfiotigau'n cael eu rhoi i wella cloffni, ar gyfer brych sy'n dal ar ôl wedi wyna anodd neu haint yn dilyn ymosodiad gan bryfed.
Gyda gwartheg: triniaeth at gloffni, brych sydd ar ôl, a mastitis. Ni chaniateir tiwbiau buchod 'sychu' ac eithrio weithiau gyda buchod sydd â'u cyfrif celloedd yn uchel. Dylech drafod hyn â'r Corff Ardystio cyn eu defnyddio.

C10 Beth yw'r cyfnodau cilio sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gyffuriau?
Mae gan y triniaethau i gyd gyfnodau cilio hirach nag mewn ffermio confensiynol, fel arfer o leiaf ddwywaith yr hyd y mae'r gwneuthurwyr yn ei argymell. Ni chaniateir defnyddio cyffuriau'n rheolaidd; nod ffermio organig yw datblygu system ffermio sy'n hybu iechyd cadarnhaol lle rhoddir pwyslais ar atal clefydau ac nid ar driniaethau.

C11 Beth yw'r prif driniaethau ataliol i gynnal iechyd anifeiliaid?
- Dewis bridiau a rhywogaethau addas o anifeiliaid
- Defnyddio arferion ffermio anifeiliaid sy'n addas i anghenion pob rhywogaeth, sy'n meithrin cryfder i wrthsefyll clefydau ac atal heintiau;
- Defnyddio porthiant o ansawdd uchel ynghyd ag ymarfer rheolaidd a mynediad i borfa, sy'n datblygu amddiffynfa imiwnegol naturiol yr anifail;
- Cadw'r dwysedd priodol o dda byw, felly'n osgoi gor-stocio a phroblemau iechyd anifeiliaid sy'n deillio o hynny.

Cwestiynau ynglŷn â chartrefu a maethu da byw

C12 A oes angen i mi newid fy nhrefniadau ar gyfer cartrefu da byw?
Mae caniatáu gofod digonol ar gyfer da byw yn ystod cyfnodau cartrefu yn rhan hanfodol o reoli eu hiechyd cadarnhaol. Mae'r Safonau Organig yn awyddus i gyflwyno'r dwysedd gorau posib er lles yr anifail, trwy 'roi iddynt ddigon o ofod i sefyll yn naturiol, gorwedd yn hawdd, troi o amgylch, tacluso'u hunain ac ymgymryd â'r holl symudiadau naturiol'....(OF&G Control Manual 8.8.13)
Caniateir llawr slatiau ond ni ddylent orchuddio mwy na 50% o'r arwynebedd ac nid ydynt yn dderbyniol fel mannau gorwedd. Rhaid i anifeiliaid gael deunydd 'gwely' a chaniateir gwellt nad sy'n organig. Y gofod angenrheidiol i gartrefu'r fuwch laeth yw 10 m sg. y fuwch, sy'n cynnwys y porthiant, gorwedd a sefyllian o gwmpas. Y gofynion ar gyfer gofod cartrefu defaid yw 4 m sg. y ddafad.

C13 Sut fydd trosiad organig yn effeithio fy nghyfradd stocio?
Bydd yr effaith ar y gyfradd stocio'n dibynnu ar ba mor ddwys yw eich system yn awr ac i ba raddau y mae meillion yn cyfrannu at eich glaswelltir. Fel rheol gyffredinol, gyda gwrtaith N ar 150kg/ha neu 3 cwt/acer ar briddoedd da, gallech ddisgwyl gostyngiad o 20% o leiaf, ond ar dir salach bydd y gostyngiad yn fwy. Ar briddoedd ffrwythlon, mae rhai ffermwyr llaeth organig yn cyrraedd cyfraddau stocio hyd at 2.0 Uned Da Byw (UDB) yr ha, sef y gyfradd stocio uchaf a ganiateir dan y Safonau Organig, gan gyfateb i 170kgN/ha. Y cyfraddau stocio mwyaf nodweddiadol serch hynny fyddai 1.5 UDB/ha ar gyfer gwartheg biff a defaid yr iseldir, a 0.8 UDB ar gyfer gwartheg biff a defaid yr ucheldir. Mae'r gyfradd stocio'n cael ei heffeithio hefyd gan y crynswth bwyd a brynir i mewn; os byddwch yn dibynnu ar lefelau uchel o fwyd prynedig i gyrraedd y lefel cyfredol o berfformiad, bydd rhaid gwylio economeg y cynhyrchu yn fanwl.

C14 Sut all fy fferm ddod yn fwy hunangynhaliol?
Gellir mabwysiadu nifer o ddulliau:

- Anelwch at wneud y defnydd gorau posibl o borthiant wedi'i dyfu gartref; gwnewch ddefnydd doeth o'ch bwyd rhataf trwy ladd gwair/silwair pan fydd y twf ar ei fwyaf daionus a phorwch laswellt cyn iddo fynd yn goesog a cholli ei flasusrwydd.
- Dewiswch fridiau sy'n chwilotwyr da ac yn llai dibynnol ar ddwysfwyd.
- Ystyriwch farchnata stoc anorffenedig fel anifeiliaid stôr.
- Ceisiwch osgoi cadw bridiau defaid sy'n rhy gynhyrchiol; nid oes angen unrhyw ddwysfwyd ar famogiaid sy'n magu oen sengl.
- Ystyriwch ostwng cyfraddau stocio a defnyddio'r tir sy'n sbâr i dyfu grawnfwyd os oes digon o dir ar y fferm i dyfu cnydau mewn cylchdro.

C15 Beth yw goblygiadau diet a phorthiannau?
Rhaid i ddeietau holl anifeiliaid cnoi cil fod yn 100% organig ac mae hyn yn cynnwys unrhyw fath o ddwysfwyd. Mae dwysfwyd organig yn ddrud, oddeutu £350/y dunnell. Hefyd, rhaid i'r diet gynnwys o leiaf 60% o borfwyd. Gweler Ffeithlen Rhif 6 ar gyfer cyflenwyr bwyd. Ar hyn o bryd mae gan foch a dofednod lwfans anorganig o 10% hyd at fis Rhagfyr 2009, a 5% ta 2011. Dylid cyfrifo'r canrannau hyn ar sail y mater sych blynyddol. Uchafswm y lwfans anorganig ar gyfer bob dydd yw 25% o'r mater sych blynyddol.

Cwestiynau ynglŷn ag ardystio organig

C16 Beth yw cofrestru organig?
Er mwyn cael disgrifio'n organig y cynnyrch yr ydych am ei werthu, ac i geisio am gymorth ariannol oddi wrth y Cynulliad; rhaid ichi gofrestru gyda corff ardystio organig (CAO). Cyfrifoldeb y CAO yw gofalu eich bod yn cydymffurfio gyda'r safonau organig, a golyga hyn, mwy na thebyg, y byddwch yn cael arolwg blynyddol. Rhestrir y Cyrff Ardystio (CA) ar Ffeithlen OCW Rhif 9, a doeth fyddai cysylltu gyda mwy nag un cyn gwneud penderfyniad. Bydd y CA o'ch dewis yn danfon pecyn ymgeisio i'w gwblhau atoch, ac mi fydd yr wybodaeth a rhoir ynddo yn dangos eich dealltwriaeth o'r egwyddorion organig a sut y byddwch yn rheoli'ch ffarm yn unol â'r safonau organig. Mae'r pecyn ymgeisio yn cynnwys copi o'r Safonau Organig ac mae ffurflen gais sydd wedi ei gwblhau i gynnwys: gwybodaeth ar storio tail a'i wasgar, cylchdroadau pori, cnydau silwair/gwair a dyfir ym mhob cae a chylchdroadau cnydau. Mae Cynllun Iechyd Anifeiliaid yn angenrheidiol, yn ogystal a chynllun bioamrywiaeth, cynllun adeiladau'r fferm a sut y bwriedir marchnata'r cynnyrch. Pan fydd y CA yn derbyn eich cais, ynghyd a'r taliad perthnasol, byddant yn trefnu i chi dderbyn arolwg a phan byddant yn fodlon eich bod yn cydymffurfio â'r Safonau, rhoi Tystysgrif i chi

C17 Beth yw'r Cyrff Ardystio?
Sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn breifat yw'r Cyrff Ardystio ac yn cael eu trwyddedu gan DEFRA i archwilio ffermydd a phrosesyddion. Rhaid i'r CA orfodi'r isafswm safonau organig a bennir gan DEFRA a'u rhestru yn y 'Compendium of UK Organic Standards'. Yn achlysurol, mae'r safonau hyn yn cael eu diwygio pan fydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Safonau Organig (ACOS) yn cynghori DEFRA ynghylch newidiadau angenrheidiol. Y newid diweddaraf a wnaed i'r Safonau oedd pennu 100% o fwyd organig i anifeiliaid cnoi cil. Mae rhai Cyrff Ardystio yn gosod safonau uwch na'r isafbwynt cyfreithiol yng nghyswllt lles anifeiliaid. Dyma pam mae'n bwysig trafod eich menter gyda mwy nag un Corff Ardystio cyn gwneud eich dewis.

C18 Pa mor hir yw'r broses ardystio?
Gall y drefn ardystio gymryd hyd at 2 fis ac mae'n costio oddeutu £450 + TAW yn flynyddol. Byddai fferm nodweddiadol 100ha mewn Ardal Llai Ffafriol yn gorfod talu ffi flynyddol o £546.00. Enillir statws organig ar ôl dwy flynedd, ond gall y cyfnod fod yn llai na hyn ar gyfer mentrau moch a dofednod. Ar ôl yr ardystiad cyntaf, bydd archwiliad blynyddol yn cynnwys edrych ar gofnodion y milfeddyg a chofnodion meddygol, symudiadau anifeiliaid, y defnydd o dir a thail, porthiant a brynwyd, a thaith gerdded o gwmpas y fferm i weld yr anifeiliaid, y cnydau, adeiladau ayyb.

C19 Pa mor fawr yw'r baich cadw cofnodion/gwaith papur?
Dywed Llawlyfr yr OF&G: '*Rhaid i'r cofnodion fod yn ddigon llawn i ddangos fod yr unigolyn wedi cydymffurfio â'r Safonau.'* Rhywbeth amhleserus yw cadw cofnodion ar y gorau a rhaid i'r ffermwr organig gadw cofnodion digonol fel tystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid cadw cofnodion o'r canlynol:
Ffermwyr da byw – genedigaethau da byw a stoc a brynwyd i mewn, marwolaethau a stoc a werthwyd, nwyddau milfeddygol a brynwyd a'r triniaethau a roddwyd, porthiannau da byw, y defnydd o dail, gwrteithi a ddefnyddiwyd, cynnyrch cnydau (silwair, gwair, grawn ayyb), hadau a brynwyd, a'r rhanddirymiadau a geisiwyd i ddefnyddio llai na 100% o hadau organig. Yn gyffredinol, os oes gennych gofnodion da ar hyn o bryd, fydd baich ychwanegol ardystio organig yn gymharol fach. Os nad ydych yn dda yn cadw cofnodion, mae'n well i chi ddechrau!

Cwestiynau ynglŷn â chymorth gan y Cynulliad

C20 Beth yw sefyllfa bresennol y Cynllun Ffermio Organig?
Ar hyn o bryd mae'n aneglur sut bydd ffermio a throsi organig yn cael eu cynnal o dan Glastir, a fydd ar gael o 2011 ymlaen. Am y wybodaeth diweddaraf, gweler www.organic.aber.ac.uk/policy/wales.shtml neu ffoniwch y llinell gymorth ar 01970 622100.

Cwestiynau ynglŷn â marchnata cynnyrch organig

C21 Beth yw'r prif allfeydd marchnata a beth yw'r sefyllfa cyflenwad/galw?
Mae'r Grŵp Strategaeth Organig yn argymell y dylai ffermwyr, pan fo'n bosibl, ddefnyddio Grwpiau Cynhyrchu:

- Mae angen i gynhyrchwyr ystyried manteision posib gweithio ar y cyd gyda grwpiau marchnata cynhyrchwyr, yn enwedig pan yn ymwneud gyda'r lluosog man werthwyr.
- Marchnata'n uniongyrchol trwy farchnadoedd ffermwyr a'r Rhyngrwyd.
- Ni ellir defnyddio marchnadoedd da byw oni bai fod yna arwerthiannau organig. Yn arferol, anifeiliaid, magu a stôr a fasnechir fel hyn.
- Cysylltwch gyda eich prynwr presennol a thafodwch a oes ganddo angen gynnyrch organig.

C22 Pa mor amrywiol yw cydbwysedd cyflenwad a galw?
Yn aml, nid yw'r cynnyrch sydd ar gael a'r galw amdano yn gytun. Ar gyfer rhai categorïau, er enghraifft, grawn, llysiau, saladau a ffrwythau; mae gallu'r DU i gyflenwi'n gyson, yn llai na'r angen, gyda'r canlyniad fod rhaid mewnforio llawer o gynnyrch organig ar waethaf ymdrech y Llywodraeth, man werthwyr, grwpiau cynhyrchwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cyflenwad cartref.

Yn dilyn tyfiant cyson yn y farchnad drwy gydol 2007, mae dylanwad y wasgfa ariannol yn golygu fod hyder prynwyr wedi pylu ac felly yn gwario llai, ac o ganlyniad mae datblygiad y farchnad organig yn amheus.

Os yn ystyried cynhyrchu cig eidion, oen, llaeth neu llysiau a ffrwythau, mae'n hanfodol i gynhyrchwyr sy'n ystyried trosi drafod eu bwriadau gyda grwpiau cynhyrchu neu prynwyr arall posib cyn cychwyn trosi.

Canolfan Organig Cymru Gorffennaf 2009

Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.